

CYNGOR CYMUNED LLANARTHNE COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Hydref 2024 o Gyngor Cymuned Llanarthne a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Capel Dewi ar 08/10/2024 am 19.00.

109/2024-2025 Presennol.

Cynghorwyr: A Isaac (Cadeirydd), G Jones, N Thomas, R Pole.

Clerc.

Cyfieithydd – H Glenister.

110/2024-2025 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: Cynghorydd Sir A Davies, C Pugh-Jones, E Jenkins.

111/2024-2025 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.

Dim.

112/2024-2025 Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Catrin Llwyd a Dr Richard Glyn Roberts o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar brosiect BRO, sef prosiect ymchwil sy'n astudio'r Gymraeg yng nghadarnleoedd Cymru. Mae gwahanol gymunedau yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn wedi eu dewis i fod yn rhan o'r ymchwil ar sail bod yn gymunedau gyda dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Maen nhw'n dechrau'r elfen gymunedol o'r ymchwil ar 14/10/2024 ac yn cynnal holiadur drws-i-ddrws mewn sampl o dai ym Mynyddcerrig, Llanddarog, Llanarthne, Capel Dewi a Phorthyrhyd. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, a Phrifysgol Rhydychen, ac mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru.

Amcan y prosiect yw deall graddau llawn y defnydd o'r Gymraeg a throsglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau yn y cymunedau Cymraeg cryfaf. Mae'r prosiect yn cynnwys pum modiwl –

- Dadansoddiad manwl o ddata'r cyfrifiad
- Arolwg o drosglwyddo iaith cyn ysgol
- Arolwg defnydd iaith o fewn pobl ifanc
- Arolwg sosioieithyddol cymunedol
- Astudiaeth o ddefnydd iaith mewn gwahanol weithleoedd

Bydd y prosiect yn cyfuno'r elfennau hyn i gynhyrchu arolwg cymdeithasol-ieithyddol cynhwysfawr o gymunedau Cymraeg cyfoes yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, byddant yn gallu ateb y cwestiynau canlynol -

- A yw data'r cyfrifiad yn adlewyrchiad cywir o realiti cymdeithasol y Gymraeg?
- A oes arwyddion o newid iaith yn y cymunedau Cymraeg cryfaf?
- Beth yw effaith polisi cyhoeddus ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn?
- A yw hyrwyddo iaith leiafrifol ar lefel ddinesig, ac mewn sectorau penodol, yn ddigon i sicrhau parhad y grŵp iaith dan sylw?

Bydd canfyddiadau'r prosiect o ddi-ddordeb i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol eraill sydd wedi bod yn destun polisi a chynllunio iaith ac i ymchwilyr ym maes sosioieithyddiaeth yn y Gymraeg ac yn rhyngwladol.

Maent hefyd yn ymddiried y bydd o ddi-ddordeb i lunwyr polisi yng Nghymru, gan y bydd y wybodaeth a roddir gan y prosiect yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer penderfyniadau ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithiol a thargedu ymyriadau. Y gobaith yw y bydd y canfyddiadau o fudd ymarferol i siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg wrth iddynt gynllunio eu dyfodol.

Gobeithir cyhoeddi'r canlyniadau ar y wefan ymhen 2 ½ mlynedd a bydd Ms Catrin Llwyd a Dr Richard Glyn Roberts yn dychwelyd i ddiweddarau'r cyngor cymuned o'r holl ganfyddiadau.

Mae Prosiect BRO yn dod i'ch cymuned chi!

Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes



Beth yw Prosiect Bro?

Mae Prosiect Bro yn brosiect newydd, tair blynedd, sy'n astudio'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Mae'r prosiect ymchwil hwn yn bartneriaeth rhwng:

- Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Yr University of the Highlands and Islands
- Prifysgol Rhydychen

Wedi'i gyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru, ein nod yw archwilio sut mae'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo rhwng cenedlaethau a'i defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Pam ydyn ni yma?

Rydym yn casglu data er mwyn ein helpu i ddeall y Gymraeg mewn cymunedau fel eich un chi. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar:

- Ddadansoddiad manwl o ddata'r Cyfrifiad
- Arolwg o drosglwyddiad iaith ymysg plant bach
- Arolwg o ddefnydd iaith ymysg pobl ifanc
- Arolwg cymunedol
- Astudiaeth o ddefnydd iaith mewn amrywiol weithleoedd

Bydd yr ymchwil hon yn rhoi darlun cyflawn i ni o ddefnydd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, ac Ynys Môn.

Byddwn yn eich cymuned cyn hir!

Bydd ein tîm yn ymweld â

- Capel Dewi
- Llanarthne
- Llanddarog
- Porthyrhyd
- Mynydd Cerrig

gan ddechrau o 14 Hydref tan ddiwedd Tachwedd 2024.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

Bydd ein tîm yn cynnal arolwg o ddrws i ddrws yn eich cymuned mewn sampl ar hap o gartrefi rhwng y dyddiadau uchod.

Efallai y byddwn yn curo ar eich drws i ofyn a allwn lenwi arolwg gyda'n gilydd.

Peidiwch â phoeni – ni fydd yn cymryd llawer o'ch amser, ond mae eich mewnbwn yn hanfodol i'n helpu i ddeall y Gymraeg yn eich cymuned.

Mae eich llais yn bwysig, ac rydym yn awyddus i glywed eich barn. Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Bydd yr holl ddata yn ddiennw ac yn cael eu trin yn gyfrinachol.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch c.llwyd@uwtsd.ac.uk neu richard.roberts@uwtsd.ac.uk



113/2024-2025 Ystyried a nodi unrhyw bryderon plismona a/neu ddiogelwch ffyrdd. Mynegodd y Cyngorydd G Jones bryder ynghylch yr e-bost isod a dderbyniwyd ar 22/08/2024.

“Rwy’n ysgrifennu i fynegi pryder am y cyflymder gormodol drwy bentref Llanarthne mewn ardal 20mya

Rydym wedi rhedeg Wrights Food Emporium ers deng mlynedd bellach ac mae’r traffig sy’n mynd heibio ein mynedfa flaen sy’n agor i’r ffordd fawr bob amser wedi bod yn bryder i ni gyda digon o deuluoedd ifanc a chwsmeriaid oedrannus yn dod i mewn ac yn gadael ein hadeilad.

Roeddem mor falch pan ddaeth y cyfyngiadau 20 mya i mewn ac yn teimlo'n dawel ein meddwl bod hwn yn syniad gwych i Lanarthne. Fodd bynnag, er y gallai fod wedi cael effaith ar rai, mae’r rhan fwyaf o’r traffig sy’n mynd heibio ymhell uwchlaw’r terfyn, sef ceir preifat, faniau a’r tractorau amaethyddol mawr sy’n gweithio yn yr ardal sy’n rasio drwy roi pobl leol a’n cwsmeriaid mewn perygl. .

Nid wyf yn ymwybodol y bu unrhyw gamerâu cyflymder na phatrolau yn y pentref yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf felly mae'r cyfyngiadau cyflymder hyn yn cael eu hanwybyddu'n llwyr.

A oes unrhyw fesurau rheoli cyflymder y gellid eu rhoi ar waith neu unrhyw gynlluniau ar gyfer camera cyflymder neu fan gwirio cyflymder rheolaidd?

Os gwelwch yn dda gadewch i mi wybod eich barn”.

Gofynnodd y Cyng G Jones a allai'r cyngor cymuned gynorthwyo mewn unrhyw ffordd arall heblaw am adrodd y mater i Gan Ddiogel.

Dywedodd y Clerc y gallai gysylltu â Mr Andrew Morgan (Peiriannydd Traffig) o Gyngor Sir Caerfyrddin i gael cyngor a chynnal arolwg traffig. **Penderfynwyd Nodi**

114/2024-2025 Materion y Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies.

Dim.

115/2024-2025 Derbyn Adroddiadau'r Cadeirydd.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi gweld y Cynghorydd Sir A Davies ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi am drafodaethau'r cynghorau cymuned dros yr ychydig gyfarfodydd diwethaf.

116/2024-2025 Cadarnhau a Llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 10/09/2024.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 10/09/2024. Cynigwyd gan y Cyng R Pole ac eiliwyd gan y Cyng A Isaac.

117/2024-2025 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.

Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, anfonwyd copi o'r Ebst at bob aelod er gwybodaeth.

118/2024-2025 Nodi gohebiaeth neu restru i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor sydd i ddod.

(Mae’r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau’r cyngor ar yr adeg y'i derbynir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu’r Clerc).

119/2024-2025 Cynllunio.

Dim.

120/2024-2025 Taliadau.

Cafodd y taliadau isod eu hardystio yng nghyfarfod mis Medi a'u cadarnhau yng nghyfarfod mis Hydref. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng G Jones ac eiliwyd gan y Cyng N Thomas63
526++.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	27/09/2024	TR Carruthers – Cyflogres Gorffennaf, Awst, Medi	242.96
Ar-lein	27/09/2024	JG Evans - Cyflogres Gorffennaf, Awst, Medi	1294.01
Ar-lein	27/09/2024	Pensiwn Dyfed	406.91
Ar-lein	27/09/2024	HMRC	485.62
Ar-lein	27/09/2024	Dynefor Tree Services - 004	125.00
Ar-lein	27/09/2024	Pach Business Solutions - 4408	435.60

121/2024-2025 I nodi derbynebau.

Dim.

122/2024-2025 Derbyn adroddiad yr Arholwr Ariannol Mewnol 01/07/2024 – 30/09/2024.

Roedd pob aelod wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Cafwyd adroddiad llafar llawn gan y Cyng A Isaac.

Yn ystod cyfarfod gyda Mr Gary Evans Clerc a minnau ar 06/10/2024 cynhaliais adolygiad o'r eitemau a ganlyn.

- 1) Archwiliad o'r datganiadau banc ar gyfer y cyfnod diweddaraf dan sylw (01/07/2024 – 30/09/2024). Cynhaliwyd y cyfarfod trwy zoom. Balans Banc Barclays ar 30/09/2024 yw £23,320.50 ac mae'n cyfateb i falans y cyfrif yng nghyfrifon Cyngor Llanarthne a gofnodwyd gan y clerc. Nid oedd unrhyw sicciau aneglur.
- 2) Gallaf gadarnhau cywirdeb y cyfrifon parhaus a fydd yn cael eu cyflwyno i aelodau'r cyngor yn y cyfarfod ar 08/10/2024 2024.
- 3) Bod pob taliad a wneir gan y cyngor yn cael ei gefnogi gan anfonebau neu dderbynebau wedi'u llofnodi. Rwyf wedi cynnal adolygiad o anfonebau a dderbyniwyd ac a dalwyd (mae'r holl daliadau naill ai'n cael eu talu â siec neu drwy drafodion ar-lein) ar gyfer y cyfnod 01/07/2024 – 30/09/2024.
- 4) Bod TAW wedi'i chyfrifo'n gywir a gellir ei hadennill pan fo'n briodol.
- 5) Mae'r incwm hwnnw wedi'i gofnodi a'i fancio'n gywir. (£17,442.46 wedi dod i law y flwyddyn ariannol hon hyd yma)
- 6) Mae taliadau i staff ac aelodau wedi'u harchwilio a chytunwyd ar y ffigurau, gan gynnwys y dreth sy'n ddyledus i HMRC.
- 7) Adolygu'r gyllideb – Ar ôl 6 mis o weithgarwch, cynhaliwyd adolygiad o'r gwariant amrywiol a wnaed hyd yma o'i gymharu â'r gwir wariant.
- 8) Yn dilyn y cyfarfod hwn gallaf gadarnhau yn fy marn i nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y cyfrifon am y cyfnod 01/07/2024 – 30/09/2024.

Cynigwyd gan y Cyng. N Thomas ac eiliwyd gan y Cyng G Jones i dderbyn yr adroddiad. Diolchodd yr aelodau i'r Cyng A Isaac a'r Clerc am eu gwaith.

123/2024-2025 Ystyried y Cyd-Opsiwn o aelodau ychwanegol.

Adroddodd y Clerc fod yr hysbyseb wedi ei anfon at holl aelodau'r cyngor cymuned, Neuadd Bentref Capel Dewi a Neuadd Bentref Llanarthne i'w hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol.

124/2024-2025 Cynnal fforwm er mwyn i aelodau godi adroddiadau/cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Adroddodd y Clerc fod y Cynghorydd Sir A Davies wedi gofyn am 2 x torch ar gyfer y Gwasanaeth Coffa.

Adroddodd y Cyng A Isaac nad oedd hi'n gallu mynychu'r arddangosfa Tân Gwylt yn Neuadd Bentref Llanarthne ar 01/11/2024 a gofynnodd i'r Clerc anfon e-bost at holl aelodau'r cyngor yn gofyn am wirfoddolwr i gynrychioli'r cyngor cymuned.

Penderfynwyd nodi.

Adroddodd y Cyng R Pole bod y gylchfan ger GFGC angen sylw gan fod llwyni a glaswellt wedi gordyfu a bod angen paentio'r gwaith celf metel cyn y 25ain pen-blwydd yn 2025. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â GFGC i benderfynu pwy sy'n gyfrifol.

Gadawodd y Cyng N Thomas y cyfarfod am 19.58, i beidio â dychwelyd.

Adroddodd y Cyng G Jones fod CFfl Capel-Arthne wedi cynnal noson ffilm ym mis Medi 2024 gan ddefnyddio'r taflunydd a roddwyd gan Gyngor Cymuned Llanarthne.

Gofynnodd y Cyng G Jones i'r Clerc ddod o hyd i drefn gwasanaeth 2023 gan y Cynghorydd Sir A Davies wrth baratoi ar gyfer Sul y Cofio ar 10/11/2024, gwneud newidiadau a threfnu argraffu. **Penderfynwyd** nodi.

125/2024-2025 Yn Camera 20.02.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

126/2024-2025 Cyfarfod Nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Neuadd Bentref Llanarthne – 12/11/2024 am 19.00.

127/2024-2025 Daeth y Cyfarfod i ben am 20.04.

Cadeirydd

Dyddiad
